Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

22 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | Diweddariad Lles, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur B B 62.16** |
| **Noddwyd y Papur Gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y Papur Gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Nodi problemau a chynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**<br><br>**Mabwysiadu dull <u>integredig</u>:**<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:**<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:**<br><br>Mae Map Ffyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut y mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru well. Mae'r map ffyrdd yn cyflwyno ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Trwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn ei wneud, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella lles, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ledled Cymru. Mae ein gwerthoedd yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd a byddwn yn gweithredu i gadw ein hunain |

| | |
|---|---|
| | ac eraill yn ddiogel ac yn iach. |

**Pwnc**

1. Diweddariad Lles, Iechyd a Diogelwch i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Cefndir**

2. Mae'r papur briffio hwn yn disgrifio'r prif faterion a datblygiadau diweddar o ran lles, iechyd a diogelwch, gan gynnig diweddariad, prif ystadegau allweddol a dehongliad, yn ogystal â chrynodeb byr o gynnydd a wnaed ar faterion penodol.

**Asesiad**

**Prif ystadegau damweiniau a damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd ar gyfer 2016-17 ar 28 Awst 2016 ynghyd â ffigurau blwyddyn lawn 2014-15 a 2015-16 er mwyn cymharu.**

| | Digwyddiadau (Blwyddyn 2016-17 hyd yma) | 2015-16 Blwyddyn Lawn | 2014-15 Blwyddyn Lawn |
|---|---|---|---|
| RIDDOR – staff[1] | 6 | 12 | 0 |
| Digwyddiadau colli amser – staff[1] | 2 | 8 | 2 |
| Digwyddiadau, dim colli amser - staff | 50 | 96 | 55 |
| Damwain y bu ond y dim iddi ddigwydd – staff[2] | 105 | 304 | 131 |
| Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol[3] | 4 | 3 | 4 |
| Digwyddiadau – contractwyr | 2 | 6 | 60 |
| Digwyddiadau – y cyhoedd[4] | 34 | 60 | |
| Damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd – contractwyr | 28 | 88 | 98 |
| Damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd – y cyhoedd | 13 | 76 | |

- Math penodol o ddigwyddiad yw digwyddiad Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR), y mae'n ofynnol hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch amdano.
- Digwyddiad colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ai anafu wrth wneud ei waith a'i fod wedi cael amser i ffwrdd neu wedi bod yn gwneud dyletswyddau ysgafn wedi hynny o ganlyniad i'w anafiadau (gellir ei hysbysu o dan RIDDOR os yw'n fwy na 7 diwrnod). Mae Colli Amser yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r person gael ei anafu.
- Digwyddiad dim colli amser yw pan fo aelod o staff yn cael ai anafu wrth wneud ei waith ond angen mân-driniaeth cymorth cyntaf yn unig ac nad yw wedi cael unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith wedi hynny. Mae digwyddiadau dim colli amser yn cynnwys difrod eiddo i gerbydau ac offer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Digwyddiad na chynlluniwyd neu na reolwyd nad yw'n achosi anaf, salwch neu ddifrod, ond y gallai wneud, yw damwain y bu ond y dim iddi ddigwydd.
- Mae anafiadau'r cyhoedd yn ymwneud â damweiniau beicio mynydd ar ein llwybrau pwrpasol yn bennaf, ac achosion o lithro, baglu a chwympo ar lwybrau cerdded. Asesir risg llwybrau a chânt eu harchwilio'n gyfnodol fel mater o drefn a chânt eu harchwilio yn dilyn damwain hefyd.
- Y cyhoedd yn mynd ar safleoedd cynaeafu byw yw damweiniau'r cyhoedd y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn bennaf.

[1]Hysbyswyd pedwar digwyddiad y gellir eu hadrodd o dan RIDDOR ers y diweddariad diwethaf. Roedd pob un o'r rhain yn afiechydon galwedigaethol yn gysylltiedig â'r gwaith o amlygiad i ddirgryniad llaw a braich. Ymunodd tri o'r unigolion a dderbyniodd diagnosis â Chyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2015 o'r Bwrdd Draenio Mewnol; roeddent yn defnyddio taclau dirgrynol yn eu swyddi blaenorol gan barhau i wneud hynny gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf y maent wedi derbyn gwyliadwriaeth iechyd galwedigaethol o ran dirgryniad llaw a braich. Roedd y pedwerydd unigolyn yn gweithio i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gynt, lle na ellid dod o hyd i unrhyw gofnodion gwyliadwriaeth iechyd blaenorol. Yn dilyn

asesiad, cafodd yr unigolyn hwnnw ddiagnosis o afiechyd yn ymwneud â dirgryniad llaw a braich hefyd. Gweler y wybodaeth fwy manwl ar ein gwaith ar ddirgryniad llaw a braich yn Adran 4i.

[2] Mae nifer yr adroddiadau o ddamweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn yn isel o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol ac o'u cymharu â chyfanswm y digwyddiadau hyd yn hyn eleni. Rydym yn parhau i dynnu sylw rheolwyr llinell a staff at y mater hwn wrth i ni roi pwyslais gweithredol ar wella'r broses hysbysu yn y sefydliad. Rydym wedi cynnal ymgyrch yn ddiweddar ar pam mae'n beth da hysbysu am ddigwyddiadau iechyd a diogelwch gan ddefnyddio ein mewnrwyd, Yammer, a ffeithluniau wedi'u harddangos o gwmpas ein swyddfeydd. Er y cafwyd adborth da, mae angen i'r cyfarwyddiaethau gefnogi'r mentrau hyn gyda'u timau. Mae gennym hyfforddiant ar gyfer pob rheolwr llinell yn yr hydref ar hysbysu am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt, a bydd cymorth yn cael ei ddarparu i'r busnes trwy ragor o ymgyrchoedd ac ymgysylltu.

[3]Comisiynwyd dau adolygiad o ddigwyddiadau difrifol newydd ers yr adroddiad diwethaf. Gweler gwybodaeth fwy manwl yn adrannau 4iii a 4iv am daro pont rheilffordd yn Queensferry yn y gogledd a digwyddiad yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd yng Nghwm-carn yn y de.

[4] Gweler gwybodaeth fwy manwl yn Adran 4ii am ddiweddariad ar yr adolygiad o achos difrifol yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd yn Niwbwrch.

## Ystadegau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2016/17

3. O 1 Ebrill 2016 hyd yma, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfartaledd o 3.8 diwrnod wedi'u colli fesul gweithiwr cyflogedig, sy'n cyfateb i 2.6%. Meincnod Cyfoeth Naturiol Cymru yw colli cyfartaledd o ddim mwy na 7 diwrnod fesul gweithiwr cyflogedig, sy'n cyfateb i 3.1%. Y tri rheswm uchaf am fod yn absennol yn ystod y cyfnod hwn, sy'n 53% o'r holl absenoldebau oherwydd salwch a hysbyswyd o 1 Ebrill 2016, yw:

| Rheswm am fod yn absennol | % Cyffredinol | Diwrnodau a gollwyd |
|---|---|---|
| Iechyd Meddwl | 21% | 575 |
| System Anadlu | 18% | 493 |
| System Gyhyrysgerbydol a Meinwe Gysylltiol | 14% | 364 |
| **Cyfanswm yr absenoldebau** | **100** | **2684** |

4. Parheir i dynnu sylw arweinwyr a rheolwyr at absenoldeb oherwydd iechyd meddwl wrth i ni ganolbwyntio ar wella lles yn y sefydliad. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n ymarferol ar fesurau i ymdrin â'r mater, gan gydnabod yr ansicrwydd sy'n bodoli yng Nghyfoeth Naturiol Cymru o ran gwerthuso swyddi, adolygiadau ardal busnes, newid sefydliadol, a gadawyr y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Hefyd, bydd mentrau i ddatblygu sgiliau rheoli, fel rhaglen reoli Tyfu, yn paratoi ein rheolwyr i ymdrin yn well â materion o'r fath.

5. Rydym yn parhau i weithio gyda'r busnes i wella ansawdd ein data absenoldeb. Yn ddiweddar, rydym wedi cael gwared ar allu rheolwyr i gofnodi "Anhysbys" fel rheswm am absenoldeb. Fodd bynnag, mae'r data yn dal i gynnwys nifer fawr o resymau am absenoldeb sy'n wag neu'n anhysbys, ac rydym yn ymchwilio i'r rhain i ganfod gwir natur y salwch. Mae hyn yn bwysig, oherwydd hyd yn hyn eleni, mae rhesymau am absenoldeb sy'n anhysbys/gwag yn 289 diwrnod, sy'n 10% o'r holl absenoldeb a hysbyswyd ar gyfer y cyfnod hwn.

## Lles

6. Rydym wedi sefydlu nifer o fentrau i gefnogi ein hymrwymiad i les yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y canlynol:

- Lansiwyd y fframwaith newydd ar gyfer Buddion Gweithwyr Cyflogedig ym mis Mehefin 2016. Gall staff Cyfoeth Naturiol Cymru gael mynediad at y buddion canlynol erbyn hyn:
    - Cynlluniau aberthu cyflog – talebau gofal plant a beicio i'r gwaith
    - Gostyngiadau manwerthu a hamdden
    - Platfform buddion ar-lein sy'n dod â'r holl gynhyrchion ar y fframwaith ynghyd yn effeithiol fel "siop un stop".

  Erbyn dechrau mis Awst, roedd bron i 60% o'r staff wedi actifadu eu cardiau aelodaeth ac roedd miloedd lawer o olygon ar y platfform buddion ar-lein.
- Dechreuodd yr ymgyrch 100 Diwrnod o Garedigrwydd o 27 Mehefin ac mae'n para tan 11 Tachwedd 2016. Mae'r ymgyrch yn gyfle anffurfiol i unigolion gymryd camau bach i wneud eu gweithle yn fwy cynhwysol, wrth i bob unigolyn gyflawni un weithred o garedigrwydd y diwrnod i gefnogi hyn. Mae hyn yn rhoi synnwyr o undod i bawb sy'n cymryd rhan ac, yn sgil hynny, yn creu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol. Mae enghreifftiau a awgrymwyd yn cynnwys gwneud paned i gydweithiwr a allai fod dan bwysau; gofyn "sut ydych chi heddiw" gan wrando ac ymateb; ac agor y drws i rywun a gwenu arnynt wrth i chi wneud hynny.
- Rydym yn parhau i hysbysebu ymgyrchoedd lles ar Yammer ac mewn adroddiadau misol ar waith, iechyd a diogelwch i reolwyr fel Wythnos Iechyd Dynion 13-19 Mehefin, cylchlythyrau misol gan ein Darparwr Cynghori Gweithwyr Cyflogedig, a sioeau teithio Cycle Solutions.

**7. Prif Ddatblygiadau**

i. **Diweddariad ar Syndrom Dirgryniad Llaw a Braich –** Rydym yn parhau i roi sylw i'r materion a nodwyd yn yr Hysbysiad o Ddiffyg Cydymffurfio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a neilltuwyd camau gweithredu trwy gynllun gweithredu'r asesiad risg (gweler Atodiad 1) i reolwyr perthnasol. Mae rhagor o waith gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn parhau, gan gynnwys profi mesurydd dirgryniad sy'n mesur amlygiad defnyddiwr unigol. Rhoddwyd diweddariad o'n camau hyd yn hyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Er bod eu hymateb yn ffafriol, cawsom ein hatgoffa ganddynt os bydd y gwaith monitro yn canfod bod gennym lawer o staff sy'n cael eu hamlygu'n rheolaidd i ddirgryniad sy'n uwch na'r gwerth gweithredu, yna efallai y bydd rhaid i ni wneud rhagor o waith i leihau amlygiad i lefel sydd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ac nid islaw'r gwerth terfyn yn unig. Byddwn yn cynnal archwiliad cychwynnol o ffurflenni gwaith monitro amlygiad ym mis Hydref i ganfod a oes angen i ni leihau amlygiad ymhellach unwaith y bydd swm rhesymol o ddata wedi cael ei gasglu gan y timau.

   Fodd bynnag, canfuwyd bod ein cofnodion etifeddol o wyliadwriaeth iechyd galwedigaethol yn annigonol i ddangos cydymffurfiad cyfreithiol, felly rydym wedi cynnal ymarfer i nodi defnyddwyr ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithio gyda theclynnau dirgrynol ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddwyd holiadur gwyliadwriaeth cychwynnol iddynt fel y gellir eu hailasesu'n llawn. Mae hyn hefyd wedi cynnwys staff a drosglwyddwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru o'r Bwrdd Draenio Mewnol. O ganlyniad i'r ymarfer hwn, hysbyswyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am bedwar RIDDOR arall ar gyfer afiechydon

galwedigaethol sy’n gysylltiedig â dirgryniad llaw a braich. Ar hyn o bryd, mae gennym ragor o staff sy’n dal i ddisgwyl am asesiad iechyd galwedigaethol, felly ni allwn sicrhau nad yw’r holl achosion hanesyddol wedi cael eu nodi. Er ei bod yn bosibl y bydd mwy o unigolion yn derbyn diagnosis o afiechyd galwedigaethol sy’n gysylltiedig â dirgryniad llaw a braich o ganlyniad i’n gwyliadwriaeth, bydd y gwaith hwn o fudd i’r staff pan oedd y dull blaenorol o reoli’r perygl hwn yn annigonol yn rhai o’n cyrff etifeddol. Mae angen i ni sicrhau bod yr holl reolwyr sy’n rheoli staff a amlygir i ddirgryniad yn cydymffurfio â’n polisi, ein gweithdrefn a’n hasesiad risg, a’n bod yn ceisio lleihau amlygiad i lefel mor isel ag y gallwn. Mae’n hanfodol bod rheolwyr llinell perthnasol yn ymwybodol o’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i reoli’r perygl hwn a’r flaenoriaeth y mae angen ei rhoi i hyn i gwblhau’r cynllun gweithredu. Mae angen i ni allu dangos ein bod wedi lleihau amlygiad i ddirgryniad i lefel sydd mor isel â’r hyn sy’n rhesymol ymarferol, a gallai fod angen newid arferion gwaith i wneud hynny, trwy leihau neu roi’r gorau i weithio gan ddefnyddio taclau dirgrynol a defnyddio ffyrdd amgen o weithio.

Rydym yn parhau i fod yn agored yn y maes hwn os bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn penderfynu ail-ymchwilio ar hyn o bryd. Rydym wedi cysylltu â’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i esbonio adroddiadau pellach a’i bod yn bosibl y bydd mwy. Eu hymateb cychwynnol yw ei bod yn bosibl na fyddant yn ymchwilio ymhellach ar hyn o bryd, ond y byddant yn adolygu’r adroddiadau RIDDOR diweddaraf cyn gwneud penderfyniad.

ii. **Diweddariad ar yr adolygiad achos difrifol o anaf i aelod o’r cyhoedd ar Ynys Llanddwyn, Tywyn Niwbwrch –** Mae’r twyni a’r traeth yn yr ardal hon yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn ardal hamdden boblogaidd hefyd. Anafwyd aelod o’r cyhoedd ar ôl iddo gwympo o’i feic ar lwybr beicio. Roedd rhwystr dros dro wedi cael ei godi i atal merlod a ddefnyddir i reoli’r pori ar y SoDdGA rhag dianc o’r safle, sydd wedi arwain at gwynion yn y gorffennol. Mae’r ymchwiliad yn parhau, ond mae’r canfyddiadau cychwynnol yn dynodi bod neilltuad swyddogol y llwybr yn aneglur, efallai bod arwyddion wedi cael eu symud trwy fandaliaeth, bod y rhwystr dros dro wedi ei farcio’n wael, ac nad oedd unrhyw arwyddion i gyfeirio’r cyhoedd i osgoi’r grid gwartheg.

iii. **Adolygiad o ddigwyddiad difrifol o daro pont rheilffordd yn Queensferry** – Ar 13 Gorffennaf, tarodd braich turiwr 7.5 tunnell, a oedd yn cael ei gludo ar gefn lori, ochr isaf pont rheilffordd yr A494. Roedd y turiwr wedi cael ei gludo ar hyd y ffordd hon o’r blaen heb unrhyw broblem, ond mae’n ymddangos, ar yr achlysur hwn, bod y turiwr wedi cael ei lwytho mewn ffordd wahanol. Nid oedd unrhyw anafiadau neu ddifrod i drydydd partïon, ond difrodwyd y system hydrolig ar fraich y turiwr gan arwain at golli olew hydrolig, ond nid achoswyd unrhyw ddigwyddiad llygredd. Hysbyswyd Network Rail a Heddlu Gogledd Cymru am y digwyddiad ar unwaith ac nid oes unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynhaliwyd adolygiad o achos difrifol a chanfuwyd problem gyda mesuriad uchder y llwyth a’r penderfyniad i gludo’r turiwr fel y’i llwythwyd gan wybod bod cyfyngiadau uchder ar y llwybr. Nodwyd yr angen am weithdrefn ffurfiol ar gyfer llwytho offer o uchder penodol gyda’r mesurau diogelwch priodol hefyd. Mae ymchwiliad ar wahân yn cael ei gynnal

gan y rheolwyr i archwilio'r broses o wneud penderfyniadau a gweithredoedd y gyrrwr.

iv. **Adolygiad achos difrifol damwain y bu ond y dim iddi ddigwydd i aelod o'r cyhoedd yng Nghwm-carn –** Hysbyswyd Cyfoeth Naturiol Cymru gan staff y ganolfan ymwelwyr yng Nghwm-carn bod beiciwr mynydd wedi hysbysu am ddamwain y bu ond y dim iddi ddigwydd pan syrthiodd coeden tua 20 troedfedd o'i flaen wrth iddo feicio ar y llwybr. Canfu ymchwiliadau ar unwaith gan staff canolfan ymwelwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod contractwyr cynaeafu wedi dechrau torri coed nesaf at un o'r llwybrau beicio mynydd tra bod y llwybr ar agor i'r cyhoedd. Comisiynwyd adolygiad achos difrifol.

v. **Diweddariad ar y farwolaeth yn Abercynon –** Clywyd y cwest i farwolaeth y contractwr torri coed Geraint Evans ar 21 a 22 Mehefin 2016. Cofnodwyd dyfarniad o farwolaeth ddamweiniol. Rydym yn disgwyl nawr am gasgliad ymchwiliad parhaus yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

**Argymhellion**

8. Nodi'r materion a chynnydd a wnaed hyd yn hyn.

**Risgiau allweddol**

9. Caiff risgiau lles, iechyd a diogelwch parhaus eu nodi a'u monitro drwy'r gofrestr risg lles, iechyd a diogelwch wedi'i diweddaru. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

**Goblygiadau ariannol**

10. Dim wedi'u rhagweld. Buddsoddiad mewn gofynion dysgu a datblygu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei gynnwys yng nghyllideb hyfforddiant 2016/17.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

- Ni chynhaliwyd un ar gyfer y papur briffio hwn.

**Atodiad 1**